**P-05-949 SAVE COWBRIDGE OLD GIRLS' SCHOOL FROM DEMOLITION, Correspondence -Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to Chair, Annex 2, 06.03.20**

# Asesiad o Hen Ysgol Ganolradd i Ferched y Bont-faen

## Cefndir

Ym mis Chwefror 2019, fe wnaethom ni ymateb i gais i restru'r adeilad hwn, sef yr hen ysgol ganolradd i ferched. Er ei fod o ddiddordeb lleol, daethom i'r casgliad nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru ac nad oedd yn cymharu'n ffafriol wrth ei feincnodi yn erbyn enghreifftiau eraill o'r math pwysig hwn o adeilad, sydd eisoes wedi'u rhestru. Mae ein rhesymau dros ein penderfyniad yn cyfeirio at newidiadau a wnaed i'r adeilad, yn cynnwys gosod ffenestri UPVC newydd yn lle'r rhan fwyaf o'r ffenestri gwreiddiol, a nodir hefyd y ffaith fod yr adeilad gwreiddiol wedi cael ei ymestyn yn ddi-oed ac yn helaeth iawn.

Gofynnwyd inni ailystyried yr argymhelliad hwn yng ngoleuni gwybodaeth newydd a gyflwynir mewn asesiad manwl a gafodd ei baratoi gan Robert Scourfield ar gyfer grŵp preswylwyr lleol.

Rwyf wedi ystyried yr adroddiad hwn yn ofalus, ond rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw'r wybodaeth newydd a gyflwynir yn creu achos digon cryf i wrthdroi ein penderfyniad blaenorol.

## Asesiad

Dyma'r pwyntiau pwysicaf yn adroddiad Mr Scourfield

1. *Hon oedd yr ysgol ganolradd gyntaf i ferched a adeiladwyd yng Nghymru (1895-6) dan Ddeddf seneddol o bwysigrwydd arloesol.*

   Roedd Deddf Addysg Ganolradd Cymru (1889) yn ddeddfwriaeth arloesol o ran darparu addysg i ferched a bechgyn y tu hwnt i oed cynradd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Gwelwyd ysgolion ar wahân ar gyfer merched a bechgyn mewn rhai ardaloedd, ond mewn ardaloedd eraill cafodd ysgolion deuol neu ysgolion cymysg eu sefydlu. Caiff pwysigrwydd y Ddeddf ei gydnabod mewn sawl enghraifft arall o restru, yn cynnwys yn fwyaf diweddaf Ysgol Maesydre yn y Trallwng. Mae enghreifftiau sydd wedi'u rhestru yn cynnwys ysgolion cymysg ac ysgolion un rhyw.

   Yn fy nhyb i, nid oes unrhyw arwyddocâd arbennig ynghlwm wrth y ffaith fod ysgol y Bont-faen wedi'i hadeiladu fel ysgol i ferched, gan fod addysg i ferched wedi'i chynnwys yn y Ddeddf, a rhywbeth lleol oedd dewis sut y câi'r addysg honno ei chyflwyno. Beth bynnag am hynny, fel ysgol, cafodd ysgol y Bont-faen ei dilyn yn ddi-oed gan yr hyn sydd bellach yn Ysgol Plant Iau Heol Harold yn y Fenni, a adeiladwyd fel Ysgol Ganolradd i Ferched yn 1897, ac a rhestrwyd felly ym 1998.

2. *Roedd sefydlu'r ysgol (ac addysg ganolradd ym Mro Morgannwg yn fwy cyffredinol) yn bwnc llosg yn lleol yn sgil y ffaith fod Ysgol Ramadeg y Bont-faen wedi gwrthod ymuno â chynllun y sir.*

Er bod hyn yn ddiddorol, nid dyma'r unig enghraifft o bwnc llosg o'r fath: er enghraifft, dim ond oherwydd cefnogaeth y cyhoedd y sefydlwyd Ysgol Ganolradd Sirol Llanfyllin, sydd wedi'i rhestru.

3. *Mae'r ysgol yn anarferol oherwydd bod ganddi le i ddisgyblion preswyl, ac mae'r bloc preswyl yn elfen arbennig ym mhensaernïaeth yr ysgol.*

   Yn sicr, mae hyn yn anarferol, ond nid wyf wedi fy mherswadio bod 'anarferol' o angenrheidrwydd yn gyfystyr ag 'arwyddocaol'. Er bod nodweddion pensaernïol arbennig i'w cael yn y bloc preswyl, nid ydynt yn ddigon, yn fy nhyb i, i droi'r fantol o blaid rhestru. Roedd Ysgol Friars ym Mangor, sydd wedi'i rhestru, yn cynnwys bloc cysgu a chanddo gynllun arbennig iawn.

4. *Mae cymeriad gwreiddiol yr ysgol wedi goroesi'n gyflawn i raddau helaeth, oddi mewn ac oddi allan, ac mae cynllun gwreiddiol yr ysgol wedi'i gadw. Mae ansawdd ei chynllun yn well na mwyafrif yr ysgolion canolradd eraill, wedi'i gynllunio gan bensaer diddorol na chaiff ei werthfawrogi'n ddigonol.*

   Mae'r graddau y mae cymeriad gwreiddiol yr ysgol wedi goroesi yn bwnc dadleuol. Cafodd yr adeilad ei ymestyn yn helaeth iawn yn fuan ar ôl iddo agor am y tro cyntaf (ym 1909). Er bod yr estyniadau hanesyddol hyn yn cyd-fynd â chymeriad yr adeilad gwreiddiol, maent yn llethu'r gwreiddiol o ran eu maint. Mae rhywfaint o fanylion yr adeilad gwreiddiol wedi goroesi (a chydnabyddir hyn yn ein hasesiad gwreiddiol), ond yn fy nhyb i, mae cymeriad amlycaf yr ysgol yn deillio o'r adeilad a adeiladwyd ym 1909.

   Nid yw ysgol y Bont-faen yn cymharu'n ffafriol ag enghreifftiau eraill sydd wedi'u rhestru. Mae ysgolion Llanfyllin a'r Trallwng, er enghraifft, wedi cadw'u ffurf wreiddiol ac nid ydynt wedi cael eu newid yn sylweddol, ac mae'r ddwy'n enghreifftiau da o arddull cyfnod y Frenhines Ann ac arddull yr adfywiad baróc a oedd mor boblogaidd ar droad y ganrif. Yn fy nhyb i, mae eu nodweddion pensaernïol yn rhagori ar nodweddion ysgol y Bont-faen.

   Fel ysgol y Bont-faen, fe adeiladwyd ysgol Heol Harold yn y Fenni (sydd wedi'i rhestru) mewn dau brif gam, ond mae hon hefyd yn rhagori ar ysgol y Bont-faen o safbwynt nodweddion pensaernïol: ymddengys na chafodd yr adeilad gwreiddiol ei lethu i'r un graddau gan ail gam y gwaith adeiladu.

   Rhywbeth mwy problemus yw'r ffaith fod manylion wedi'u colli wrth osod y ffenestri uPVC newydd. Ni sonnir am hyn yn adroddiad Mr Scourfield, ond cafodd ei nodi gan yr Arolygydd Adeiladau Hanesyddol Cynorthwyol ar y pryd pan ymwelodd â'r ysgol ym mis Chwefror.

**Casgliad.**

Yn ôl adroddiad Mr Scourfield, hyd yn oed os oes enghreifftiau gwell eisoes wedi'u rhestru, nid yw hyn ynddo'i hun yn rheswm digonol dros wrthod rhestru ysgol y Bont-faen. Mae'n honni ei bod ymhlith yr ysgolion canolradd gorau eu cyflwr yng Nghymru, a bod ei chynllun a'i ffitiadau mor gyflawn a phwysig ag enghreifftiau sydd eisoes wedi'u rhestru.

Ni allaf gytuno gyda'i asesiad, sy'n anwybyddu'r ffenestri newydd ac yn niwlio'r gwahaniaeth rhwng adeilad 1895-6 ac estyniadau 1909. Mae'n rhesymol inni ddefnyddio adeiladau sydd eisoes wedi'u rhestru fel meincnod ar gyfer asesu'r enghraifft hon o Ysgol Ganolradd, ac rwy'n fodlon nad yw'n cyrraedd y safon o safbwynt ei phensaernïaeth. O ran y prif bwynt sy'n ymwneud â'i diddordeb hanesyddol – mai hi oedd yr ysgol ganolradd gyntaf i ferched yng Nghymru – nid wyf o'r farn fod y ddadl hon yn dwyn digon o berswâd o blaid rhestru, gan fod yr egwyddor o roi addysg i ferched wedi'i chynnwys yn Neddf 1889, ac mae enghreifftiau rhestredig eraill yn adlewyrchu amrywiaeth y trefniadau ar gyfer darparu addysg i ferched a bechgyn fel ei gilydd yn unol â thelerau'r Ddeddf.

Er nad yw'r adeilad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru, fel y nodir yn ein hasesiad blaenorol, yn amlwg mae o bwysigrwydd lleol ac efallai y gellir ei gynnwys ar restr Trysorau Sirol Bro Morgannwg.

Judith Alfrey 1 Awst 2019